*Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies*

## 'Cofia fi,' oedd ei gri' – Mam Un o'r Lladron

**Darllen Luc 23:39-43**

'Cofia fi,' oedd ei gri.
'Pan ddoi i deyrnasu
cofia'r truan tlawd a fu farw yn dy ymyl.'
Beth a barodd iddo ofyn?

Nid wyf yn gwybod,
ond yr oedd rhywbeth ynglÿn â'r dyn Iesu yma
a'i cyffyrddodd ddigon i beri iddo,
yn ei ing, i yngan ei gri olaf.
Roedd yn syndod i mi,
oherwydd nid oedd yn ddyn crefyddol;
roedd ei ffydd – nid yn unig yn Nuw ond ym mhopeth –
wedi diflannu ers blynyddoedd.

Gwyddai ei fod ar fai,
ac yr oedd yn dymuno newid,
anghofio'r gorffennol a dechrau eto,
ond pa obaith oedd ganddo,
faint oedd yn barod i roi ail gyfle iddo,
a chredu ei fod yn barod i newid ei ffyrdd?

Neb.
Un camgymeriad,
un eiliad o wallgofrwydd,
ac yr oedd yn wrthodedig,
wedi ei gondemnio i dreulio gweddill ei ddyddiau yn y gwter,
heb obaith,
heb ystyr.
Ni allai oddef rhagor,
ac aeth o ddrwg i waeth.

Torrodd fy nghalon pan ddaliwyd ef,
oherwydd fy mab ydoedd wedi'r cyfan,
ond erbyn hyn yr oedd wedi derbyn, i bob golwg,
ei fod yn haeddu cosb am ei droseddau.
Ond pan godwyd ei groes sylwodd ar y croesbren nesaf,
a newidiodd ei wedd,
o anobaith i ddicter, anghrediniaeth a siom.

Gwyddwn beth oedd ar ei feddwl,
roeddwn innau yn teimlo'r un fath:
pam y dyn hwn? –

dyn dieuog,
heb ronyn o ddrwg ynddo,
heb awgrym o gasineb ynddo.
Dioddefodd y cyfan yn dawel,
y sarhad,
y gwrthodiad,
a hyd yn oed pan ddechreuodd y llall oedd yn hongian yno ei wawdio,
ni newidiodd ei agwedd,
dim dicter,
dim melltithio.

Ni welais erioed y fath beth –
dyma'r unig dro –
ac mae'n amlwg i'r olygfa gael effaith ar fy mab
lawn cymaint ag arnaf innau,
oherwydd y peth nesaf a glywais oedd ei lais,
yn galw, yn uchel ac yn glir:
'Iesu, cofia fi pan ddoi i'th deyrnas.'
Aeth â'm gwynt i gyd,
ofnais wrth feddwl beth ddigwyddai nesaf,
oherwydd pam dylai Iesu wrando, yno o bob man?
Ni wnaeth neb arall erioed.
Pa reswm oedd ganddo i boeni am ddim
ond ei ing ei hun?

Ond fe drodd gydag edrychiad nad anghofiaf byth –
y fath gariad,
y fath lawenydd,
y fath dderbyniad ar ei wyneb –
a llefarodd y geiriau rhyfeddol:
'Heddiw byddi di gyda mi ym Mharadwys.'
A oedd hynny'n wir?
Wel, mae'n amlwg na allaf ateb y cwestiwn hwnnw,
nid yn y bywyd hwn, o leiaf –
os am brawf rhaid i chi ddisgwyl.

Ond gallaf ddweud hyn:
pan dynnwyd fy mab i lawr a minnau yn ei ddal yn fy mreichiau –
dylech fod wedi gweld y wên ar ei wyneb,
y mynegiant o lawenydd a thangnefedd ar ei ruddiau.
Yr oedd yn ddigon i mi.
Gwyddwn y pryd hwnnw,
heb amheuaeth,
heb gwestiwn,
fod Iesu wedi clywed ei weddi,

a'i hateb!